

Adolygiad o Drefniadau Arbed Costau – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Blwyddyn archwilio: 2023

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4582A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Amcanion a chwmpas ein gwaith	4
Canfyddiadau allweddol	5
Atodiadau	
Atodiad 1 – Dulliau archwilio	10

Cyflwyniad

- 1 Mae GIG Cymru yn wynebu heriau ariannol digynsail. Etifeddiaeth pandemig COVID-19 ar y galw am wasanaethau; y costau cynyddol sy'n gysylltiedig â staffio, ynni, meddyginiaethau, cynnal ystad sy'n heneiddio; ac mae mynd i'r afael â'r cyflyrau iechyd cynyddol gymhleth sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio i gyd yn cyfrannu at y sefyllfa ariannol sy'n gwaethygu ar draws y GIG.
- 2 Er bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £425 miliwn ychwanegol ar gael i'r GIG ym mis Hydref 2023, roedd sefyllfa archwiliedig ddiwedd blwyddyn 2023-24 ar gyfer GIG Cymru yn ddiffyg cyfunol o £183 miliwn. Er bod rhai cyrff GIG yn gallu cyflawni cydbwysedd ariannol diwedd blwyddyn, roedd y sefyllfa i eraill - yn enwedig rhai Byrddau Iechyd - yn heriol, gyda nifer yn methu â chyflawni'r cyfanswm diffyg rheoli a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.
- 3 Mae'r sefyllfa ar gyfer 2024-25 yr un mor heriol, os nad yn fwy heriol. Bydd angen i gyrff iechyd sicrhau bod ganddynt ddulliau cadarn ar waith i nodi a chyflawni cyfleoedd gwella costau yn ystod y flwyddyn. Byddant hefyd yn mabwysiadu dull tymor hwy o ran sicrhau cynaliadwyedd ariannol sy'n symud i ffwrdd o ddulliau tymor byr i rai lle cyflawnir arbedion trwy drawsnewid modelau gwasanaeth a ffyrdd o weithio.

Amcanion a chwmpas ein gwaith

- 4 O ystyried yr heriau a amlinellir uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymgymryd â rhaglen waith sy'n archwilio dulliau cyrff y GIG o nodi, cyflawni a monitro cyfleoedd arbed costau cynaliadwy. Er bod ein gwaith manylach wedi'i anelu at fyrrdau iechyd, rydym hefyd wedi gwneud gwaith lefel uchel mewn Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n gysylltiedig â swyddogaethau penodol y cyrff hynny. Nodir canfyddiadau'r gwaith lefel uchel hwnnw yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn yr adroddiad hwn.
- 5 Gwnaed y gwaith i gyflawni dyletswydd statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod yn fodlon bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 6 Gwnaethom ein gwaith rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2024. Mae'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

Canfyddiadau allweddol

- 7 Ar y cyfan, canfuom fod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rhesymol effeithiol ar gyfer nodi, cyflawni a monitro ei chyfleoedd arbed costau. Fodd bynnag, mae dibyniaeth barhaus ar arbedion nad ydynt yn gylchol ac ansicrwydd ynghylch incwm cytundeb hirdymor yn peri risgiau i'w chynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.
- 8 Mae'r canfyddiadau sy'n cefnogi ein casgliad cyffredinol wedi'u crynhoi isod o dan y penawdau canlynol:
- Nodi cyfleoedd arbed costau
 - Cyflawni cyfleoedd arbed costau
 - Monitro a throswlg o gyfleoedd arbed costau.

Nodi cyfleoedd arbed costau

- 9 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddealltwriaeth dda o'r ffactorau sy'n achosi costau sydd wedi'u nodi'n glir yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2024-27 a'i Chynllun Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau mewn gwasanaethau, y Model Clinigol Meddygol Aciwt ar y Safle¹, gwella ei model darparu gwasanaethau, costau gweithredu uwch ar gyfer ystad bresennol Canolfan Ganser Felindre, a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) Patholeg. Mae'r CTCI a'r Cynllun Ariannol yn cydnabod y pwysau costau cenedlaethol ehangach sy'n wynebu'r sefydliad, gan gynnwys cost gweithredu capasiti ychwanegol i ymdrin â'r galw cynyddol, chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog, chwyddiant cyflogau a chostau cynyddol taliadau digidol a Chronfa Risg Cymru².
- 10 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod yr amgylchedd ariannol heriol y mae'r sefydliad, a'r GIG ehangach yng Nghymru, yn gweithredu ynddo. Mewn ymateb, mae wedi sefydlu gwell trefniadau monitro cyllid a buddsoddi i gryfhau ei hamgylchedd rheoli a sicrhau atebolrwydd ychwanegol ymhlith ei Thîm Gweithredol ar draws sawl mesur ariannol allweddol³ gyda'r bwriad o fynd i'r afael â chynaliadwyedd hirdymor yr Ymddiriedolaeth a gwerthfawrogi risgiau strategol. Mae'r trefniadau hyn yn ymgorffori pum maes ffocws y Bwrdd Gwerth a

¹ Mae Model Clinigol Meddygol Aciwt ar y Safle yn wasanaeth ysbyty sy'n darparu gofal i gleifion sy'n ymglyfwyno â symptomau sy'n awgrymu argyfyngau meddygol.

² Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n darparu'r modd y gall pob Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd yng Nghymru sicrhau indemniad yn erbyn risg.

³ Mae mesurau ariannol allweddol yn cynnwys: cyflawni arbedion, rheoli costau, dewisiadau ac opsiynau sy'n parhau tuag at bwysau ariannol y system, ac effeithiau penderfyniadau gwario gan ystyried ansawdd, diogelwch a phrofiad.

Chynaliadwyedd cenedlaethol⁴ ac mae Cynllun Cyllid 2024-25 yr Ymddiriedolaeth yn nodi sut y gall y sefydliad helpu i wella sefyllfa ariannol gyffredinol GIG Cymru, gan gynnwys:

- archwilio cyfleoedd gydag Uned Feddyginiaethau Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (PCGC) i gyflenwi cyffuriau ar gostau is;
- gweithio gyda byrddau iechyd ar lwybrau anemia cyn llawdriniaeth gan ddefnyddio egwyddorion Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth⁵ i ryddhau capasiti gwelyau;
- cyflawni arbedion posibl⁶ i fyrddau iechyd os yw'r Achos Busnes Plasma ar gyfer Meddyginiaeth yn cael ei gymeradwyo a'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, a'r Cydbwyllgor Comisiynu; a
- defnyddio dull Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth i adolygu arferion neu brosesau clinigol nad ydynt yn ychwanegu gwerth a newid ffyrdd o weithio.

- 11 Nod Cynllun Ariannol 2024-25 yr Ymddiriedolaeth yw gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiad cyrff mewnol ac ehangach y GIG y sefydliad. I ddechrau, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod targed arbedion mewnol o 3.1% o £2.6 miliwn yn 2024-25 sy'n cynnwys arbedion cylchol a'r rhai nad ydynt yn gylchol o £1.3 miliwn, yn y drefn honno. Mae Cynllun Ariannol 2024-25 yn nodi'n glir ofyniad arbedion y sefydliad sy'n cwmpasu cyfnod tair blynedd ei CTCl 2024-27 ac mae'n darparu dadansoddiad lefel uchel o sut y bydd yn cyflawni arbedion y flwyddyn bresennol, yn bennaf trwy arbedion arfaethedig Rhaglen Gwella Costau a chynhyrchu incwm y sefydliad.

Cyflawni cyfleoedd arbed costau

- 12 Fel y dangosir yn **Arddangosyn 1**, mae gan yr Ymddiriedolaeth hanes da o ragori ar ei thargedau arbedion cyffredinol yn sylweddol. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i gyflawni yn bennaf trwy gyflawni arbedion nad ydynt yn gylchol. Er bod cyfran yr arbedion cylchol wedi cynyddu'n gyson hyd at 2021-22, bu gostyngiad graddol yn y blynyddoedd diwethaf gyda dim ond 41% o'r arbedion a gyflawnwyd yn 2023-24 yn rhai cylchol.

⁴ Mae pum maes ffocws y Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd yn cynnwys: gweithlu, rheoli meddyginiaethau, Gofal Iechyd Parhaus/Gofal Nyrsio wedi'i Ariannu, gwariant nad yw'n ymwneud â chyflog a chaffael, ac amrywiad clinigol/cyfluniad gwasanaeth.

⁵ Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth yw defnydd teg, cynaliadwy a thryloyw o'r adnoddau sydd ar gael i sicrhau gwell canlyniadau a phrofiadau i bob person.

⁶ Mae arbedion posibl o tua £1.5 miliwn yng nghanam 1 a £2 filiwn yng nghanam 2 ar feddyginiaethau sy'n deillio o waed a ddefnyddir gan Fyrddau Iechyd.

Arddangosyn 1 – hanes arbedion yr Ymddiriedolaeth rhwng 2018 a 2024

Blwyddyn	Targed Arbedion Cyffredinol (£M)	Arbedion cyffredinol gwirioneddol a gyflawnwyd (£M)	Arbedion cylchol fel % o'r targed arbedion cyffredinol	Arbedion nad ydynt yn gylchol a gyflawnwyd (£M)	Arbedion cylchol a gyflawnwyd (£M)
2018-19	3.8	5.7	55%	3.6	2.1
2019-20	4.0	6.8	42%	5.1	1.7
2020-21	4.2	5.4	64%	2.7	2.7
2021-22	2.7	5.7	128%	2.2	3.5
2022-23	2.4	5.8	79%	3.9	1.9
2023-24	4.6	6.9	41%	5.0	1.9

Ffynhonnell: Ffurflenni Monitro Misol Llywodraeth Cymru

- 13 Fel rhan o'i hymateb ehangach i'r pwysau ariannol sylweddol yn y GIG yn ystod 2023-24, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Ymddiriedolaeth nodi camau gwella ariannol pellach i helpu i wella sefyllfa gyffredinol GIG Cymru. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu nodi'n gyflym arbedion ychwanegol gwerth cyfanswm o £2.3 miliwn o ganlyniad i ildio diogelwch Cytundeb Hirdymor⁷, lleihau costau ynni, a gwerthuso'r defnydd cynyddol o feddyginiaethau generig a meddyginiaethau

⁷ Cytunwyd ar ddiogelwch incwm Cytundeb Hirdymor fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth Cytundeb Hirdymor rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i chomisiynwyr (byrddau iechyd). Roedd y diogelwch incwm yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i'r Ymddiriedolaeth wrth ymrwymo buddsoddiad i gynyddu capasiti ar gyfer gwasanaethau canser. Diogelwyd lefel o incwm i roi sicrwydd i'r Ymddiriedolaeth, pe bai'r lefelau gweithgarwch yn is na'r disgwyl, ac felly mae incwm contractio'r Cytundeb Hirdymor a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth oddi wrth fyrddau iechyd yn is na'r disgwyl. Yn sgil ei ildio yn 2023-24, gostyngodd costau gwasanaethau Canolfan Ganser Felindre ar gyfer byrddau iechyd a darparodd gyfraniad tuag at ostwng y diffyg ehangach o tua £1.25 miliwn.

biodebyg⁸ i gyflawni arbedion. Yn dilyn hynny, gwellodd yr Ymddiriedolaeth ei threfniadau trosolwg ariannol yng ngoleuni'r arbedion ychwanegol hyn, er mwyn sicrhau ei bod yn gallu cyflawni sefyllfa o allu mantoli'r gyllideb ar gyfer 2023-24.

- 14 Rhoddodd adroddiad Archwilio Mewnol ar Gyllid a Chynaliadwyedd Gwasanaeth a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2024 sgôr sicrwydd rhesymol. Nododd sawl maes o arfer da o amgylch cynlluniau rheoli cyllidebol ac arbedion, gan gynnwys mater amserol o lythyrau dirprwyo'r gyllideb, craffu a chymeradwyo prosiectau referniw newydd, ac adroddiadau ariannol rheolaidd i ddeiliaid cyllideb rhanbarthol a'r Bwrdd Rheoli Gweithredol. Yn ogystal, canfu fod yr Ymddiriedolaeth wedi ymateb yn gyflym i gais Prif Weithredwr GIG Cymru am opsiynau ar gyfer arbedion pellach, i gefnogi lleihau diffyg ariannol cyffredinol GIG Cymru, a chyflawni arbedion gwerth tua £2.3 miliwn yn ystod 2023-24.
- 15 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau clir ar waith ar gyfer troi ei gofynion arbedion lefel uchel yn gynlluniau arbedion y gellir eu defnyddio. Mae terfynau gwariant dirprwyedig a thargedau arbedion wedi'u datganoli i ranbarthau gyda chynlluniau arbedion cylchol yn cael eu datblygu trwy drafodaethau gydag Uwch Dimau Arweinyddiaeth rhanbarthol i gyrraedd eu targedau priodol. Mae cynigion amlinellol manwl yn cael eu datblygu sy'n nodi sut a ble y bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni, ynghyd â'r effaith a ragwelir.
- 16 Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, gosododd yr Ymddiriedolaeth darged arbedion o £2.6 miliwn yn wreiddiol. Fodd bynnag, ym mis Mehefin 2024, diwygiodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged arbedion i £2.9 miliwn, sy'n gynydd o £0.270 miliwn. Arweiniodd hyn at ail-broffilio arbedion a ddirprwywyd i ranbarthau⁹ i adlewyrchu'r angen i nodi cynlluniau arbedion newydd, ac i gymryd lle cynlluniau arbedion nad oeddent wedi cyflawni neu heb wneud cynnydd ar y pryd. Roedd y Diweddariad Cyllid Mis 5 2024-25 i'r Bwrdd ym mis Medi 2024 yn nodi bod cyflawni arbedion ar y trywydd iawn i fodloni'r targed.

Monitro a throsolwg o gyfleoedd arbed costau

- 17 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau da ar gyfer monitro a sicrhau trosolwg o'r gwaith o gyflawni arbedion. Caiff perfformiad ariannol ei adrodd i'r Pwyllgor a'r Bwrdd Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, gyda diweddariadau rheolaidd yn rhoi trosolwg manwl o gyflawniadau arbedion. Mae ein hadroddiad ar Asesiad

⁸ Mae meddyginiaethau generig a meddyginiaethau biodebyg yn fathau o feddyginiaethau dilynol sy'n debyg i gyffuriau ag enw brand a gallant fod yn fwy fforddiadwy na'r gwreiddiol.

⁹ Dyrannwyd cyfran Ranbarthol targed arbedion cyffredinol diwygiedig yr Ymddiriedolaeth fel a ganlyn – Gwasanaethau Canser Felindre £0.939 miliwn (32%) (Gynt fesul CTIC £0.939 miliwn (36%)); Gwasanaeth Gwaed Cymru £0.569 miliwn (20%) (CTCI) £0.650 miliwn (25%); Datblygu Ymchwil ac Arloesi £0.230 miliwn (8%) (CTCI £0.230 miliwn (9%)); a'r Gwasanaethau Corfforaethol £1.137 miliwn (40%) (CTCI £0.787 miliwn (30%)).

Strwythuredig 2024 yn nodi craffu a herio da ynghylch sefyllfa ariannol y sefydliad yn y ddau fforwm.

- 18 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cofnodi'n ddigonol y risg o ran ei sefyllfa ariannol ehangach yn Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth a Chofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth, sef byddai'r sefydliad yn anghynladwy yn ariannol pe na bai'n sicrhau cyllid digonol ar gyfer darparu gwasanaethau a phe na bai'n gwneud y defnydd mwyaf posibl o adnoddau. Mae strwythurau a rheolaethau rheoli ariannol priodol ar waith i liniaru'r risg hon.
- 19 Fel mater o drefn mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ei risgiau ariannol yn ystod y flwyddyn, megis, dyfarniad cyflog 2023-24, costau sy'n gysylltiedig â safle Canolfan Ganser Felindre, costau ynni, diffyg cyflawni arbedion, ac ansicrwydd ynghylch incwm y bydd yn ei dderbyn gan ei chomisiynwyr. Yn dilyn cynnydd Cytundeb Hirdymor o 3.67% i ddyraniadau'r byrddau iechyd gan Lywodraeth Cymru yn 2024-25, disgwyliad yr Ymddiriedolaeth oedd y byddai dyraniad cyfwerth â 3.67% yn cael ei drosglwyddo i sefydliadau darparwyr gan ei byrddau iechyd comisiynu. Yn ystod mis Mehefin 2024, daeth i'r amlwg na fyddai dau fwrdd iechyd yn trosglwyddo'r cynnydd llawn o 3.67% a chyrrhaeddwyd sefyllfa o gyfaddawd gyda nhw, gan arwain at effaith ariannol ar yr Ymddiriedolaeth¹⁰ yn erbyn y cynllun ariannol a nodwyd yn wreiddiol ar gyfer 2024-25. Mewn ymateb, cymerodd yr Ymddiriedolaeth gamau priodol drwy adolygu a diwygio ei chynllun arbedion (**gweler paragraff 16**). Fodd bynnag, efallai na fydd y dull hwn yn gynaliadwy yn y dyfodol, os bydd mwy o gomisiynwyr yn penderfynu trosglwyddo dim neu ddim ond rhywfaint o'r cynnydd hwn.
- 20 Fel pob corff y GIG yng Nghymru, mae'r Ymddiriedolaeth yn cymhwyso sgôr Coch, Melyn, Gwyrdd i'w chynlluniau arbedion i bennu'r risg o beidio â chyflawni. Mae Cynllun Ariannol 2024-25 yn nodi bod 61% o'i harbedion yn 'wyrdd', 4% yn 'felyn', a 35% yn 'goch'. Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod cynlluniau 'melyn' yn troi yn gynlluniau 'gwyrdd' (h.y. tebygolrwydd cryf o gyflawni) o fewn tri mis. Ym mis 5 2024-25, adroddodd yr Ymddiriedolaeth fod dim ond un cynllun melyn a'i bod yn disgwyl iddo droi'n 'wyrdd' yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan nodi ei bod yn mynd i'r afael â risgiau arbedion yn gyflym.
- 21 Mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi cynlluniau arbedion 'coch' yn ei hadroddiadau cyllid, sy'n galluogi aelodau'r Bwrdd i gael darlun cyflawn o lefel y risg sydd gan yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â'r cynlluniau arbedion y mae wedi'u nodi a mesur hyfywedd cynlluniau y gellid eu defnyddio pe bai cynlluniau 'gwyrdd' a 'melyn' presennol yn tanberfformio.

¹⁰ Profodd yr Ymddiriedolaeth ostyngiadau mewn incwm cylchol yn ôl disgrisiwn ac incwm nad yw'n gylchol o £318,000 a £483,000, yn y drefn honno.

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 2** isod yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth wedi'i chyfyngu i'r wybodaeth a dynnwyd o'r dulliau isod.

Elfen o'r dull archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	Rydym wedi adolygu amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none">• CTCI 2024-25 a'r Cynllun Ariannol• Adroddiadau Ariannol i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad• Fframwaith Sicrwydd yr Ymddiriedolaeth• Cofrestr Risg yr Ymddiriedolaeth
Cyfweliadau	Gwnaethom gyfwrdd â'r uwch swyddogion canlynol: <ul style="list-style-type: none">• Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid• Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid• Pennaeth Partner Busnes Cyllid• Pennaeth Cynllunio Ariannol ac Adrodd



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English